Rhif: WG30474

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# Hysbysiadau Cosb Benodedig ar gyfer Tipio Anghyfreithlon ar Raddfa Fechan

Dyddiad cyhoeddi: 12 Ionawr 2017
Camau i'w Cymryd: Ymatebion erbyn 06 Ebrill 2017

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Yn nogfen Llywodraeth Cymru, "Cymru Ddi-dipio – Ein strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â thipio anghyfreithlon" gwnaed ymrwymiad i ymchwilio i gyflwyniad Hysbysiadau Cosb Benodedig (HCB), neu ddulliau gorfodi eraill, ar gyfer achosion o dipio anghyfreithlon. Nod yr ymgynghoriad hwn yw ceisio'ch barn ar gynigion Llywodraeth Cymru i gyflwyno HCB ar gyfer tipio anghyfreithlon ar raddfa fechan yng Nghymru. |
| **Sut i ymateb** | Y dyddiad cau ar gyfer ymateb yw 6 Ebrill 2017<br><br>Gallwch ymateb trwy:<br><br>Lenwi'r ddogfen ymateb i'r ymgynghoriad ar-lein<br><br>Neu drwy'r e-bost: AARh@cymru.gsi.gov.uk<br><br>Neu drwy'r post:<br>Cangen Ansawdd a Rheoleiddio'r Amgylchedd<br>Pobl a'r Amgylchedd<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Mae fersiwn print bras, Braille a fersiynau mewn ieithoedd eraill o'r ddogfen hon ar gael ar gais.**<br><br>Insert Consultation Page Web address |
| **Manylion cyswllt** | I gael rhagor o wybodaeth:<br><br>Enw: Cangen Ansawdd a Rheoleiddio'r Amgylchedd<br><br>Cyfeiriad:<br>Pobl a'r Amgylchedd<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>e-bost: AARh@cymru.gsi.gov.uk<br>ffôn: 02920 823162 |
| **Diogelu Data** | Sut y byddwn yn defnyddio'r safbwyntiau a'r wybodaeth a roddwch i ni:<br><br>Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y |

dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu inni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig inni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn inni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

## Tipio anghyfreithlon yng Nghymru – Cefndir

Cofnodwyd dros 36,000 o achosion o dipio anghyfreithlon yng Nghymru yn ystod 2015/16 ac fe gostiodd y gwaith clirio mwy na £2.1 miliwn i drethdalwyr Cymru. Roedd yr achosion hyn yn amrywio o ran maint, o gwpwl o fagiau bin llawn sbwriel i lwyth lori fawr o wastraff adeiladu a dymchwel. Mae tipio anghyfreithlon yn broblem fawr i gymunedau lleol, yn enwedig ardaloedd mwyaf difreintiedig y wlad; mae hefyd yn beryglus i'r amgylchedd ac, ar brydiau, yn achosi llifogydd lleol.

Ar hyn o bryd, yr unig ddewisiadau sydd ar gael i ddelio â'r rheini sy'n tipio'n anghyfreithlon yw eu herlyn mewn ymgais i gael euogfarn droseddol yn y Llys, neu i swyddogion gorfodi roi rhybudd iddynt. Nododd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar Strategaeth Tipio Anghyfreithlon Llywodraeth Cymru yn 2012 fod cefnogaeth gref ymhlith rhanddeiliaid i gyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig (HCB) ar gyfer troseddau tipio anghyfreithlon ar raddfa fechan. Credai'r ymatebwyr y byddai mabwysiadu'r dull hwn o weithio yn caniatáu i Awdurdodau Lleol ymdrin â llawer iawn o droseddau ar raddfa fechan mewn ffordd fwy effeithiol a chymesur ac y byddai'n helpu i leihau'r baich ar lysoedd ynadon lleol. Awgrymwyd hefyd y gallai HCB fod yn rhwystr effeithiol a hyd yn oed annog pobl i newid eu hymddygiad.

## Y Sefyllfa Bresennol

### Cymru

Dengys ffigurau a gyflwynwyd gan Awdurdodau Lleol ledled Cymru yn ystod 2015/16 fod ymchwiliad wedi'i gynnal i 21,494 o achosion o dipio anghyfreithlon, ond dim ond 53 o dipwyr anghyfreithlon a gafodd eu herlyn yn llwyddiannus. Nid yw hyn yn ddim ond 0.2% o'r holl achosion yr ymchwiliwyd iddynt yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae'n costio llawer i Awdurdodau Lleol ymchwilio, erlyn a chlirio a chael gwared â deunydd a gaiff ei dipio'n anghyfreithlon. Pan fydd cosbau yn cael eu gosod o ganlyniad i erlyniadau llwyddiannus, noda'r Awdurdodau Lleol bod y rhain yn cael eu talu i'r Llys a bod yn rhaid i'r awdurdodau sy'n erlyn mynd ati i adennill eu costau trwy broses ar wahân.

I lawer o Awdurdodau Lleol, mae'r cais hwn yn aml yn arwain at ddyfarniad ariannol llai o lawer na'r hyn a gostiodd iddynt i ymchwilio ac erlyn. Yn ystod 2014 er enghraifft, bu'n rhaid i un Awdurdod Lleol yng Nghymru dalu £8,000 mewn costau llys yn unig, ond dim ond £4,256 a ddyfarnwyd iddo. Gall derbyn llawer llai na chost yr erlyniadau yn gyson fod yn gymhelliad i Awdurdodau Lleol beidio ag erlyn achosion o dipio anghyfreithlon.

### Lloegr

Dechreuwyd cyflwyno HCB yn Lloegr ar 9 Mai 2016[1]. Roedd y rheoliadau newydd yn gosod cosb ragosodedig o £200 er mwyn bod yn ddigon i rwystro tipio anghyfreithlon ar raddfa fechan, ac yn fforddiadwy i amrywiaeth o droseddwyr. Y gosb uchaf yw £400. Yn unol â chynlluniau HCB amgylcheddol eraill, cafodd gostyngiad ei gynnwys am dalu'r gosb yn gynnar (£120 os telir y gosb o fewn 10 niwrnod), a gall Awdurdodau Lleol gadw'r anfonebau o'r HCB i helpu i gyfrannu at gostau gorfodi a chlirio tipio anghyfreithlon.

### Yr Alban

[1] The Unauthorised Deposit of Waste (Fixed Penalties) Regulations 2016: http://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2016/334/made

Cyflwynwyd HCB yr Alban am dipio anghyfreithlon trwy Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (yr Alban) 2004[2] a chodwyd lefel yr HCB o £50 i £200 yn 2014 yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus yn 2013.

**Y gofyniad am newid**

Yn ogystal â'r ymatebion a gafwyd i ymgynghoriad strategol Llywodraeth Cymru ar Dipio Anghyfreithlon, cynhaliwyd ymgynghoriad a chais am dystiolaeth ar y cyd gennym ni ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) yn 2015[3], i geisio barn pobl ar fesurau amrywiol sy'n ymwneud â throseddau gwastraff, yn cynnwys cyflwyno HCB am dipio anghyfreithlon. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr o blaid mabwysiadu'r dull hwn o weithio, gan nodi y byddai'n ddull gorfodi ychwanegol gwerthfawr ac yn cynnwys ffordd gymharol syml, cyflym a rhad o ymdrin â throseddwyr.

Ar hyn o bryd, gall awdurdodau gorfodi gyflwyno HCB am nifer o droseddau amgylcheddol, er enghraifft, taflu sbwriel, graffiti, methu â chodi baw cŵn a gosod posteri'n anghyfreithlon. Credir yn aml fod hyn yn ffordd fwy syml a llai costus o bosibl o gosbi troseddwr, yn hytrach na'i erlyn drwy'r Llysoedd. Gall hefyd fod yn her gostus a beichus i swyddogion gorfodi erlyn troseddwyr tipio anghyfreithlon ar raddfa fechan - er enghraifft, rhywun sydd wedi gadael cwpwl o fagiau bin du o wastraff domestig. Bydd cyflwyno'r rheoliadau hyn yn rhoi dewis arall i swyddogion gorfodi yn hytrach na mynd â throseddwyr i'r Llys.

Rhagwelir y bydd y dewis i gyflwyno HCB am dipio anghyfreithlon ar raddfa fechan yn darparu ffordd fwy defnyddiol o gosbi troseddwyr ac yn lleihau'r baich ar y system farnwrol o ran yr achosion o adael sbwriel a ddaw gerbron y Llys. Bydd hyn, yn ei dro, yn lleihau'r costau i'r awdurdodau gorfodi ac i'r system farnwrol. Nod arall o gyflwyno HCB yw'r effaith rwystro fwy hirdymor y gallai ei chael o bosibl pan fydd ymwybyddiaeth yn codi o'r cynnydd mewn cosbau, ac felly yn helpu i leihau tipio anghyfreithlon ar raddfa fechan.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft sy'n cyd-fynd â'r ddogfen hon yn amlinellu'r costau a'r effeithiau gweinyddol a ragwelir o gyflwyno'r rheoliadau hyn yng Nghymru.

[2] Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (yr Alban) 2004: http://www.legislation.gov.uk/asp/2004/8/contents

[3]Waste crime: improving enforcement powers to reduce persistent non-compliance at waste handling sites (Defra): https://www.gov.uk/government/consultations/waste-crime-improving-enforcement-powers-to-reduce-persistent-non-compliance-at-waste-handling-sites

**Rheoliad drafft arfaethedig i gyflwyno HCB am Achosion o Dipio Anghyfreithlon ar Raddfa Fechan yng Nghymru**

Bydd y rheoliadau arfaethedig yn gosod darpariaethau yn Neddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (p.43)("y Ddeddf") i ganiatáu i Awdurdod Lleol yng Nghymru gyflwyno HCB i rywun sy'n torri adran 33(1)(a) o'r Ddeddf. Mae Adran 33(1)(a) yn gwahardd unigolyn rhag gwaredu gwastraff wedi'i reoli neu wastraff echdynnol o fewn neu ar unrhyw dir oni bai ei fod yn unol â thrwydded amgylcheddol. Cynigir y bydd y darpariaethau newydd yn adlewyrchu'r rheini sydd eisoes mewn grym yn Lloegr. Darperir trosolwg cryno o'r darpariaethau isod:

**<u>Pwy fydd yn gallu cyflwyno HCB?</u>**

Cynigir y bydd swyddog awdurdodedig o Awdurdod Lleol yng Nghymru yn cyflwyno'r HCB, er enghraifft, Swyddog Gorfodi Gwastraff neu Swyddog Iechyd yr Amgylchedd.

**<u>Faint fydd y gosb benodedig?</u>**

Bydd Awdurdodau Lleol yn gallu gosod swm y gosb benodedig ar unrhyw lefel rhwng £150 a £400 gan ddibynnu ar eu hamgylchiadau lleol. Os na chaiff unrhyw swm ei bennu, y swm rhagosodedig fydd £200.

**<u>A fydd darpariaeth ar gyfer talu'n gynnar?</u>**

Bydd. Cynigir y bydd y rheini y cyflwynir HCB iddynt yn gallu talu swm heb fod yn llai na £120 os byddant yn talu'n gynnar (hyd at 10 niwrnod ar ôl dyddiad yr hysbysiad).

**<u>Pwy fydd yn cadw'r arian o'r cosbau penodedig?</u>**

Cynigir y bydd Awdurdodau Lleol yn cadw'r anfonebau o'r HCB er mwyn helpu i gyfrannu at gostau gorfodi a chlirio tipio anghyfreithlon.

**<u>A cheir unrhyw gynigion eraill?</u>**

Yn yr un modd ag HCB eraill am droseddau amgylcheddol, bydd hi'n drosedd i:

- fethu â rhoi enw neu gyfeiriad;
- rhoi enw neu gyfeiriad anwir neu anghywir.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Mae tipio anghyfreithlon yn effeithio'n anghymesur ar ein cymunedau mwyaf difreintiedig. Mae cyfran sylweddol o wastraff a gaiff ei dipio'n anghyfreithlon yng Nghymru yn cael ei dipio yn yr ardaloedd trefol hynny sy'n dioddef o orboblogi, tlodi a diweithdra ac mewn ardaloedd gwledig pellennig lle credir bod y perygl o gael eich dal yn isel. Mae amgylchedd lleol glân, diogel, hygyrch a deniadol yn rhan hanfodol o'r Gymru yr ydym ei heisiau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Gall gwella ansawdd yr amgylchedd lleol arwain at fwy o fuddsoddiad mewnol a gweithgarwch economaidd. Mae tipio anghyfreithlon hefyd yn tanseilio busnesau gwastraff lleol cyfreithlon, gyda gweithredwyr anghyfreithlon yn osgoi costau gwaredu gwastraff ac yn codi prisiau is na'r rheini sy'n cadw at y gyfraith.

Gall gwastraff a gaiff ei dipio'n anghyfreithlon gael effaith niweidiol ar gydnerthedd ecosystemau lleol trwy lygru'r ddaear a'r dŵr, a gall hefyd bod yn beryglus i iechyd pobl, er enghraifft, gwastraff adeiladu sy'n cynnwys asbestos wedi'i dipio'n anghyfreithlon.

Gall trefn reoleiddio effeithiol i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon felly gael effaith gyfranogol bwysig ar nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015[4], sef:

- Cymru lewyrchus;
- Cymru gydnerth;
- Cymru iachach;
- Cymru sy'n fwy cyfartal; a
- Chymru o gymunedau cydlynes.

Datblygwyd y Strategaeth Cymru Ddi-dipio (2015) sydd wedi arwain at y cynigion HCB hyn trwy bartneriaeth gydweithredol weithredol rhwng Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdodau Lleol a sefydliadau allweddol eraill. Mae'r bartneriaeth wedi ceisio datblygu dull cwbl integredig o drechu'r broblem o dipio anghyfreithlon. Mae'r strategaeth wedi canolbwyntio'n gryf ar gymryd camau atal cynnar ac, er bod gorfodi'r HCB yn digwydd ar ôl i'r drosedd gael ei chyflawni, mae effeithiau mwy hirdymor dulliau gorfodi o'r fath yn ataliol ynddynt eu hunain.

Gyda'i gilydd, mae'r dulliau hyn o weithio yn dangos cymhwysiad y pum ffordd o weithio a nodwyd dan yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Byddant yn helpu i sicrhau bod y cynigion ar gyfer HCB yn cael eu gwireddu ac yn cyfrannu'n rhesymol at y nodau a restrwyd uchod.

---

[4] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?skip=1&lang=cy

**Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad**

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

**Cwestiwn 1**: Ydych chi'n credu y bydd cyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig am dipio anghyfreithlon ar raddfa fechan yn arf defnyddiol i Awdurdodau Lleol drechu tipio anghyfreithlon ar raddfa fechan?

**Cwestiwn 2:** Ydych chi'n credu bydd y swm arfaethedig ar gyfer y gosb benodedig (rhwng £150 a £400) yn ddigon i rwystro tipio anghyfreithlon ar raddfa fechan?

**Cwestiwn 3:** Ydych chi'n cytuno â chynnwys dewis i dalu cosb benodedig yn gynnar a chyda'r swm isaf a awgrymwyd?

**Cwestiwn 4:** A ddylai'r pŵer i gyflwyno HCB am dipio anghyfreithlon ar raddfa fechan gael ei ymestyn i swyddogion awdurdodedig eraill heblaw am y rheini a ddynodwyd gan Awdurdodau Lleol, er enghraifft, swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru?

**Cwestiwn 5:** Pa hyfforddiant a chymorth arweiniol ydych chi'n credu y bydd eu hangen ar awdurdodau gorfodi, os o gwbl, pan fyddant yn cyflwyno HCB am dipio anghyfreithlon ar raddfa fechan? Rhowch fanylion.

**Cwestiwn 6**: A yw'r ffigurau a ddefnyddiwyd yn yr asesiad effaith yn adlewyrchiad cywir o'r costau y mae Awdurdodau Lleol yn eu hwynebu wrth ymchwilio / erlyn / clirio achosion o dipio anghyfreithlon ar raddfa fechan? Os nad ydynt, rhowch ragor o fanylion.

**Cwestiwn 7**: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes materion cysylltiedig eraill nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y lle hwn i sôn amdanynt:

Mae'n debygol y bydd ymatebion i ymgynghoriadau yn cael eu cyhoeddi, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Pe bai'n gennych i ni beidio â rhoi eich enw, ticiwch yma: ☐